

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 23 GORFFENNAF 2021

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)  
bressenol: Cynghorwyr Sattar, Goddard a/ac Lancaster

### 4 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Mackie fuddiant personol yn yr Eitem Frys – TEN Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig fel y gŵyr y Person.

### 5 : CAIS AM GANIATÂD TRWYDDED SAFLE - GROUND BAKERY, STRYD PONTCANNA

Yn Bresennol

Ymgeiswyr: Lois Thomas a Becky North - Ground Bakery  
Rob Lewis ( gyda'r ymgeiswyr )

Y Cais

Mae cais am Drwydded Safle wedi dod i law gan TFSLET Ltd mewn perthynas â Ground Bakery, Stryd Pontcanna, Caerdydd, CF11 9HQ

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Bydd y safle'n gweithredu fel becws/caffi. Byddwn yn cynnig brecwast, brecinio a chinio i noddwyr a hoffem gynnig rhestr fer iawn o ddiodydd alcoholig ochr yn ochr â hyn".

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Dydd Sul i ddydd Iau 08:00 - 17:00 a dydd Gwener a dydd Sadwrn 08:00 - 22:00

(4) Cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle: Dydd Sul i ddydd Iau 08:00 - 17:00 a dydd Gwener a dydd Sadwrn 08:00 - 22:00

Yr ymgeisydd

Dywedodd yr ymgeisydd wrth yr is-bwyllgor fod y busnes wedi bod ar agor ers bron i bedair wythnos, bod becws yng nghefn y safle a bod lle i 16 o westeion eistedd y tu

mewn a chownter. Mae'r busnes yn cynnig brecwast a brecinio o 09:00, gydag opsiwn brecinio ar gael tan 15:00 ac mae'r busnes yn cau am 17:00.

Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn dymuno gweini alcohol gyda phrydau bwyd, heb opsiwn tecawê. Byddai'r dewisiadau alcohol yn gyfyngedig iawn, dim ond Prosecco/Champagne, gwin ac ychydig o goctels i ategu'r opsiwn te prynhawn.

Dywedodd yr ymgeisydd fod ei Ganiatâd Cynllunio yn caniatáu agor tan 22.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn; nid oes ganddo unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio hyn yn llawn ond wrth i'r busnes esblygu efallai y bydd am ystyried agor fel Bar Pasta am un noson yr wythnos i gynyddu trosiant, byddai alcohol gyda phryd o fwyd yn helpu hyn; byddai'r capasiti o 16 person yn aros yr un fath.

Dywedodd yr ymgeisydd nad oes ganddo unrhyw fwriad i weithredu'r busnes fel lleoliad hwyr yn y nos ac nad yw'n gweithredu ei oriau trwyddedu llawn yn ei safle arall.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau.

Wrth ymateb i gwestiynau, eglurodd yr ymgeisydd na fyddent yn gwerthu unrhyw gwrw neu seidr a'r cynnig fyddai gwin, champagne, coctels.

Gofynnodd yr Aelodau am y sylwadau gan gymdogion o ran man ysmegu dynodedig neu ardal aros tacsis. Roedd yr ymgeisydd yn deall y pryderon a nododd fod ganddo'r un problemau yn ei safle arall. Dywedodd y byddent yn annog pobl i symud ar hyd y stryd, y byddai'r staff yn monitro'r man y tu allan yn wyladwrus bob 5-15 munud, a gellid gweld y safle hefyd drwy ffenestr flaen y gwydr; roedd posteri hefyd yn gofyn i gwsmeriaid barchu'r cymdogion a gadael yn dawel. Ychwanegodd yr ymgeisydd nad yw eisiau unrhyw berthynas negyddol gyda'r cymdogion, bod ganddo brydles 10 mlynedd yn y safle hwn a phrydles 15 mlynedd yn ei safle arall, felly mae er eu lles gorau i gynnal perthynas gadarnhaol â'r cymdogion.

Nododd yr Aelodau fod y cymdogion wedi awgrymu archebion diwethaf am 21.30 a bod cwsmeriaid yn gadael erbyn 22.00, gan ofyn a fyddai hyn yn broblem. Esboniodd yr ymgeisydd na fyddai'n broblem oherwydd bod y Caniatâd Cynllunio yn nodi bod yn rhaid i bawb fod oddi ar y safle erbyn 22:00; bydd yr archebion diwethaf yn cael eu galw am 20:45/21:00 i ganiatáu amser i glirio ac i'r holl bobl adael y safle erbyn 22:00.

Ychwanegodd yr ymgeisydd ei fod yn deall yr holl bryderon ond eu bod yn ceisio ychwanegu gwerth i'r ardal; cymeront awenau Cameo Club 18 mis yn ôl ac nid ydynt wedi cael unrhyw broblemau nac un gŵyn gan eu cymdogion na'r Cyngor; mae'r busnes hwn yn llawer llai ac maent yn hyderus y gallant ei redeg yn yr un modd gyda'u profiad.

**PENDERFYNWYD:** Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn DERBYN y cais.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd a gwrandawont ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Hefyd ystyriant yr Aelodau Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd y sylwadau a wnaed gan drigolion lleol a'r holl sylwadau ysgrifenedig.

Nododd yr is-bwyllgor fod yr ymgeisydd wedi derbyn amodau arfaethedig Heddlu De Cymru yn Atodiad C yr adroddiad cyn y cyfarfod, ac yn ystod y cyfarfod nododd yr ymgeisydd na fyddai ganddynt broblem o ran cyfyngu'r amser hwyraf ar gyfer gwerthu alcohol gan 30 munud i 21:30 o'r gloch ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau i'r cyfarfod a'r deunydd ysgrifenedig yn ofalus, teimlai'r is-bwyllgor nad oes gan y cynigion o fewn y cais y potensial i danseilio'r amcanion trwyddedu.

Felly, penderfynodd yr is-bwyllgor ganiatáu'r cais, yn amodol ar orffen gwerthu alcohol 30 munud yn gynt, sef am 21:30, ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn.

## 6 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Derbyniwyd Eitem Frys mewn perthynas â TEN – Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Datganodd y Cynghorydd Mackie fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn adnabod y Gweinidog, felly tynnodd yn ôl o'r cyfarfod a daeth y Cynghorydd Goddard i'r Gadair gyda'r Cynghorydd Lancaster yn ymuno â'r is-bwyllgor.

Yn Bresennol

Ymgeiswyr: Mr Martin Jones – Eglwys Ddiwygiedig Unedig

Awdurdodau Cyfrifol: PC Rob Gunstone, Heddlu De Cymru

Y Cais

Derbyniwyd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar 15 Gorffennaf 2021 gan: Martin Jones i awdurdodi digwyddiad dros dro yn: Eglwys Ddiwygiedig Unedig a maes parcio cyfagos, Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BZ.

Mae'r hysbysiad yn ymwneud â digwyddiad sydd i'w gynnal rhwng:

Dydd Gwener 27 Awst 2021 – dydd Sul 29 Awst 2021

Amseriadau'r digwyddiad yw:

Dydd Gwener 27 Awst 2021 12:00 - 00:00 dydd Sadwrn 28 Awst 2021 12:00 - 00:30  
dydd Sul 29 Awst 2021 12:00 - 00:00

1. Bydd yr hysbysiad er mwyn caniatáu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

- (i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle
- (ii) Darparu adloniant a reoleiddir
- (iii) Darparu lluniaeth hwyr y nos

2. Disgrifiwyd natur y digwyddiad fel a:

"Darparu penwythnos balchder bach i gwsmeriaid Bar y Prif Lwyfan a chodi arian at yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig i gynorthwyo'r costau rhedeg a chynnal a chadw"

3. Uchafswm nifer y bobl fydd yn mynychu'r digwyddiad yn unol â'r hysbysiad digwyddiad dros dro yw 499.

(4.) Cyflwynwyd Cynllun Rheoli Digwyddiadau gan y 'defnyddiwr safle' ochr yn ochr â'r hysbysiad digwyddiad dros dro, ac mae hwn i'w weld yn Atodiad B yr adroddiad.

Cyflwyniad yr Awdurdod Cyfrifol

Amlinellodd PC Gunstone y pwyntiau allweddol o'r cais. Esboniodd fod gwrthwynebiad Heddlu De Cymru yn cael ei wneud oherwydd pryderon Heddlu De Cymru y byddai cynnal y digwyddiad fel y'i cyflwynir yn y cais a'r dogfennau ategol yn arwain at danseilio'r Amcanion Trwyddedu canlynol, sef: Atal Trosedd ac Anhrefn. Diogelu'r cyhoedd. Atal Niwsans Cyhoeddus Yn ogystal, mae gan Heddlu De Cymru bryderon ynghylch rheoli nifer y noddwyr fydd yn mynychu'r digwyddiad yn unol ag Adran 7.35 y Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003.

Amlinellodd PC Gunstone y prif feysydd sy'n peri pryder fel a ganlyn: Roedd pryder ynghylch rheoli niferoedd, pobl yn gollwng allan i'r stryd ac ni fyddai ffyrdd ar gau; byddai'r DPS yn gyfrifol am reoli a threfnu cyfanswm o 5 bar; roedd angen eglurhad ynghylch rolau'r Staff/Marsialiaid/Staff Diogelwch; roedd y cyfanswm o 499 yn cynnwys staff a chwsmeriaid; angen eglurhad ar y derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â'r system ciwio; eglurhad ar fath, y mesurau a'r uchafswm prynu alcohol; eglurhad o amserau'r digwyddiad a'r oedran ieuengaf a ganiateir yn y digwyddiad; cangen cadarnhad y byddai pibellau plastig yn cael eu defnyddio; eglurhad ar bwyntiau mynediad ac ymadael, trefniadau toiled; roedd pryder ynghylch pobl yn ymgynnull y tu allan a pharti stryd posibl yn digwydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau.

Gofynnodd yr Aelodau ei bod yn rhesymol gofyn am uchafswm polisi diodydd mewn digwyddiadau fel hyn. Esboniodd PC Gunstone nad oedd yn ddigwyddiad mawr ond hoffai Heddlu De Cymru gael uchafswm o 4 diod i bob cwsmer fesul pryniant.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r niferoedd yr un fath am y tri diwrnod ac fe'u cynghorwyd y byddent er y gallai nifer yr ymwelwyr yn yr ardal fod yn uwch, a allai effeithio ar lif y traffig. Ychwanegodd PC Gunstone fod safle trwyddedig arall yn yr ardal ac roedd potensial ar gyfer yfed ar y stryd na fyddai'r Trefnydd yn gallu ei liniaru.

Cyflwyniad y Trefnwyr

Anerchodd Mr Jones yr is-bwyllgor ac ymatebodd i bryderon Heddlu De Cymru fel a ganlyn:

Byddai system ciwio ar waith a fyddai'n cynnwys o leiaf 120 o bobl, wedi'u cynnwys ar dir yr Eglwys felly ni fyddai unrhyw bobl ar lwybr cyhoeddus.

Mewn cynlluniau digwyddiadau diwygiedig gyda PC Gunstone a Chyngor Caerdydd, byddai'r digwyddiad yn awr ar gyfer uchafswm o 300 o bobl gan gynnwys yr holl staff.

Ar y dydd Gwener byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr Eglwys a dim byd yn y maes parcio, byddai hyn ar gyfer uchafswm o 250 o bobl, gyda thocynnau am £20 yr un; byddai 200 tocyn ar werth ymlaen llaw a 50 ar gael wrth y drws. (Byddai uchafswm o 300 tocyn ar gyfer y dydd Sadwrn a'r dydd Sul).

Byddai diogelwch Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn gyfrifol am sicrhau nad yw pobl yn ymgynnull y tu allan. Bydd marsaliaid yn staff a'r rhedwyr yn cefnogi'r staff gyda glanhau toiledau a dod â mwy o lestri plastig ac ati.

Eglurwyd y byddai 1 ADD wrth y fynedfa ac 1 wrth yr allanfa ddydd Gwener; 2 crwydro'r tu mewn a gwirio'r tu allan. Ddydd Sadwrn a dydd Sul byddai 6 ADD ar ddyletswydd.

Byddai isafswm oedran mynediad yn 18 oed gyda her 25 ar waith. Y bwriad oedd bod ADD yn cynnal gwiriadau adnabod wrth y drws, yna'n rhoi cerdyn i'r cwsmer sy'n profi bod ei oedran wedi'i wirio, gallant gyflwyno'r cerdyn hwn wrth y bar wrth brynu alcohol.

Ar gyfer gwasgaru mwy diogel, dim ond un allanfa ac un fynedfa fyddai bellach. Byddai rhaid ymadael drwy'r Eglwys gydag ADD yn sicrhau nad yw pobl yn ymgynnull y tu allan. Mae llety myfyrwyr drws nesaf ac nid ydynt wedi gwrthwynebu'r digwyddiad.

Ni fydd staff yn gweini cwsmeriaid os ydynt yn feddw, byddant yn cynnig dŵr ac yn eu cynorthwyo i adael.

Bydd yr Archeb Olaf yn cael ei galw am 23:00 ar bob un o'r tair noson.

Caiff teclynnau clicio eu defnyddio i gyfrif pobl i mewn ac allan, bydd staff ADD yn cyfathrebu dros radio i roi'r ffigurau i'w gilydd bob 5 munud ac yn cofnodi'r ffigurau i sicrhau y glynir wrth y niferoedd. Mae'r drefn un i mewn ac un allan wedi'i thynnu o gynllun y digwyddiad felly ni fydd unrhyw orlenwi yn bosibl.

Mae toiledau wedi'u symud i'r man lle bydd staff yr ADD wedi'u lleoli, a chaiff toiledau y tu mewn i'r Eglwys eu defnyddio hefyd. Bydd Rhedwyr a Staff y Bar yn cynnal archwiliadau toiled bob 30 munud.

Bydd alcohol yn cael ei werthu mewn llestri plastig; bydd Cwrw, Lager a Gwirodydd yn cael eu gwerthu; bydd mesurau'n 25ml sengl a 50 ml dwbl; bydd 3 neu 4 opsiwn drafft ar gael.

O ran y pryniant mwyaf posibl, roedd Mr Jones o'r farn y byddai 6 diod yn gyson â 6 person fesul bwrdd; roedd wedi cyfarfod ag ymgynghorydd SAGE ynglŷn ag asesiadau Covid. Pe bai angen, byddai gwasanaeth bwrdd ac archebu drwy opsiynau ap, os na fyddai angen hyn mwyach, roedd yn dal i fwriadu cynnig byrddau o 6 a gwasanaeth bwrdd yn ogystal â chwsmeriaid yn gallu mynd i'r bar am ddiodydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch rolau. Dywedodd Mr Jones y byddai Rhedwyr yn cefnogi'r staff a bydd Marsialiaid yn cynorthwyo'r cwsmeriaid. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n hawdd eu hadnabod ac eglurodd Mr Jones y byddent yn gwisgo siacedi llachar fel y gall pobl fynd atynt.

Eglurodd yr Aelodau y byddai 4 ADD ar ddyletswydd ddydd Gwener a 6 ADD ar ddyletswydd ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Gofynnodd yr Aelodau a ganiateir gadael a dod yn ôl i'r digwyddiad. Dywedodd Mr Jones y byddai tocynnau a brynir o flaen llaw yn caniatáu hyn ond nid tocynnau a brynir ar y diwrnod. Mae nos Wener yn sioe felly bydd pobl yn aros a dim ond yn yr egwyl y bydd diodydd yn cael eu gweini.

Gofynnodd yr Aelodau pa adloniant oedd yn cael ei ddarparu dros y tridiau. Eglurodd Mr Jones mai Sioe Drag fydd nos Wener, bydd DJs dydd Sadwrn a byddai Sul yn gymysgedd o Gomedï, Drag a Band.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd gorfodi'r nifer is o 300. Cynigiodd Mr Jones gyflwyno hyn yn ysgrifenedig drwy e-bost os oes angen.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai alcohol yn cael ei ganiatáu y tu allan i dir yr Eglwys. Dywedodd Mr Jones ei fod am gadw alcohol ar dir yr Eglwys gan nad yw am i bobl fynd â diodydd draw i fariau eraill ac ati. Ni fyddai unrhyw werthu fel tecawê.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y rhwystrau a chiwio. Dywedodd Mr Jones y byddai ciwiau arddull 'Disney' i fyny ac i lawr, heb unrhyw rwystr i'r llwybr cyhoeddus.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r fynedfa gefn yn cael ei defnyddio. Dywedodd Mr Jones y byddai'r iard yn cael ei defnyddio a bod yr ardal hon wedi'i ffensio heb fynediad i'r llwybr troed. Cytunwyd ar y ffensys gyda Rheoli Llygredd Sŵn.

Gofynnodd PC Gunstone am eglurhad ar yr amseroedd y byddai staff ADD ar ddyletswydd. Dywedodd Mr Jones y byddent ar ddyletswydd o'r amser agor i'r amser cau.

Roedd gan PC Gunstone bryderon ynghylch cyflwyno cerdyn adnabod a byddai'n dal yn dymuno i staff y bar weithredu Her 25, dywedodd hefyd y byddai'n well ganddo gael bandiau arddwrn yn lle cardiau. Roedd Mr Jones yn hapus i ystyried y cyngor hwn.

Roedd gan PC Gunstone bryderon ynghylch yr uchafswm pryniant gan ei fod o'r farn ei bod yn bwysig bod pobl yn cael mwy o gysylltiad â staff y bar a all wedyn benderfynu a yw pobl yn feddw. Roedd yn hapus i drafod hyn ymhellach gyda Mr Jones y tu allan i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn DERBYN y cais.

Clywodd yr is-bwyllgor y sylwadau gan Dîm Trwyddedu Heddlu De Cymru a threfnydd y digwyddiad arfaethedig, ac ystyried Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a'i Ddatganiad Polisi Trwyddedu ei hun.

Ystyriodd yr is-bwyllgor hefyd yr holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed, gan gynnwys y cynllun rheoli digwyddiadau a gyflwynwyd gan y trefnydd.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau i'r cyfarfod a'r deunydd ysgrifenedig yn ofalus, teimlai'r is-bwyllgor na fydd y digwyddiad arfaethedig, os caiff ei drefnu fel y nodir, yn tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Nododd yr is-bwyllgor fod y trefnydd, yn ystod y cyfarfod, wedi cytuno i ddiwygio'r digwyddiad gyda Heddlu De Cymru, ac mae'r diwygiadau y cytunwyd arnynt fel a ganlyn:

- Ddydd Gwener mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr eglwys yn unig. Bydd uchafswm o 250, bydd 4 goruchwilydd drws yr ADD ar ddyletswydd. Bydd yr adloniant yn dod i ben am 22:00 a bydd y digwyddiad yn dod i ben erbyn 23:00 fan hwyrach
- Ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, bydd 6 goruchwilydd drws ADD ar ddyletswydd. Bydd uchafswm o 300 yn bresennol. Bydd gwerthiant alcohol yn dod i ben am 23:00 a bydd yn ofynnol i'r bobl adael erbyn 23:30 fan hwyrach.
- Dim ond ar gyfer y digwyddiad cyfan y bydd tocynnau ar werth.
- Bydd holl oruchwylwyr ADD ar ddyletswydd o ddechrau'r digwyddiad tan y diwedd.
- Ni fydd y digwyddiad yn dechrau cyn 16:00 ddydd Gwener a 18:00 ddydd Sadwrn a dydd Sul
- Bydd bandiau arddwrn yn cael eu defnyddio i ddangos prawf oedran, bydd y rhain yn wahanol liwiau ar bob diwrnod
- Dim ond y rhai sy'n 18 oed neu'n hŷn a ganiateir i'r digwyddiad

Yn amodol ar y cytundebau uchod, penderfynodd yr is-bwyllgor beidio â gwrthwynebu'r digwyddiad dros dro.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55 pm